# Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad Annibynnol Undeb Rygbi Cymru

## Dawn Bowden AS, Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth

Cyhoeddwyd gyntaf: 15 Tachwedd 2023

Diweddarwyd ddiwethaf: 15 Tachwedd 2023

Ym mis Ionawr, ysgrifennais at aelodau yn amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru i raglen BBC Investigates i ddrygioni a gwahaniaethu yn URC.

Ddoe, cyhoeddod y Panel Adolygu Annibynnol ei adroddiad ar honiadau o rywiaeth, misogyny, homoffobia a hiliaeth, a diwylliant sefydliadol ac ymddygiad arweinyddiaeth ar bob lefel, yn yr Undeb Rygbi Cymru. Gellir dod o hyd i gopi o'r adroddiad yma: INDEPENDENT REVIEW OF THE WELSH RUGBY UNION (Saeneg yn Unig).

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu cyhoeddiad yr adroddiad effeithiol hwn ac yn diolch i bawb a gyfrannodd at y canfyddiadau a'r argymhellion terfynol. Dylai'r adroddiad fod yn drobwynt sy'n dod â newid i rygbi Cymru gyfan.

Byddem nawr yn ystyried yr adroddiad yn llawn ac yn cyfarfod ag URC i drafod yr argymhellion a'i gynlluniau ehangach.  Mae'n galonogol bod URC wedi derbyn, yn ddieithriad, holl argymhellion y panel adolygu, gyda chynnydd sylweddol eisoes wedi'i wneud mewn rhai meysydd.

Rhaid i URC nawr ganolbwyntio ar y dasg o adfer ymddiriedaeth gyda phawb sydd â diddordeb yn y gêm, gan gynnwys dioddefwyr ymddygiad annerbyniol sydd wedi siarad allan yn ddewr.

Fel pob corff chwaraeon yng Nghymru, rydym yn disgwyl i URC ddarparu amgylcheddau diogel i staff, chwaraewyr a phlant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y gêm ar bob lefel.  Ein huchelgais i Undeb Rygbi Cymru yw i'r gwaith hwn weithredu fel catalydd sy'n gweld y sefydliad yn dod yn arweinydd ac yn esiampl ar gyfer triniaeth deg ar draws yr holl genhedloedd a phob camp.